Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori Ymchwiliad Estynedig

Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru

Patrwm Enghreifftiol
Teilyngdod wedi'i Ddyfarnu

City & Guilds | wjec cbac

Level 3 Children's Care, Play, Learning, and Development: Practice and Theory

TIMESHEET must be submitted with the candidates work

Centre Name/*Enw'r Ganolfan*:

Centre Number/*Rhif y Ganolfan*:

Candidate Name/*Enw'r Ymgeisydd*

Candidate Number/*Rhif yr Ymgeisydd:*

Extended Investigation

The total time allowed must not exceed 15 hours. / *Ni ddylai'r cyfanswm yr amser a ganiateir fod yn fwy na 15 awr.*
The timed, supervised hours took place as follows: / *Cynhaliwyd oriau dan oruchwyliaeth wedi'u hamseru fel a ganlyn:*

Dates *Dyddiadau*			Time Allowed (15 hours) *Amser a Ganiateir (15 awr)*	
			Hours/*Oriau*	Minutes/*Munudau*
04	04	22	4	15
05	04	22	5	00
06	04	22	3	0
		Total / Cyfanswm	12	15

I certify that the candidate completed this assessment **within the designated 15 hours** on the above dates. / *Tystiaf fod pob ymgeisydd wedi cwblhau'r asesiad hwn **o fewn y 15 awr dynodedig** ar y dyddiadau uchod.*

Supervisor's Signature/*Llofnod yr Athro:* .... **Date/*Dyddiad:*** .....

I confirm that the evidence submitted for assessment has been produced by me without any assistance beyond that allowed. / *Cadarnhaf fy mod wedi cynhyrchu'r dystiolaeth a gyflwynwyd*

Candidate's Signature/*Llofnod yr Ymgesiydd:* ..... **Date/*Dyddiad:*** .....

<u>Topic 1:</u> Mae ymchwil ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn effeithio ar ddeddfwriaeth a mentrau cyfredol y llywodraeth. Gwnewch ymchwil ar sut mae polisïau a deddfwriaeth gyfredol wedi rhoi sail i *(informed)* newidiadau i addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Tasg 1

O fewn yr ymchwiliad estynedig hwn fyddaf yn trafod gwahanol fathau o ddeddfwriaethau sydd yn ymwneud a chamdriniaeth. Y prif bwnc rwyf wedi ei ddewis fel man ffocws o fewn yr ymchwiliad estynedig hwn ydy camdriniaeth. Edrychaf i mewn i sut mae hyn yn cael effaith ar addysg blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Trafodaf wahanol agweddau o fewn yr ymchwil yma, fyddaf yn edrych i mewn i ddiogelwch a sut allwn gyflenwi hyn o fewn y lleoliad addysg, o fewn yr agwedd yma fyddwn hefyd yn cyffwrdd ar gyfrinachedd ac yn olaf fyddwn yn trafod y wahanol asiantaethau sydd yn cydweithio er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. O ran y cwrs Lefel 3 yn Ofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygiad rydym yn cael y cyfle i fynd allan ar leoliad o fewn Ysgol Gynradd. Drwy gydol fy amser o gael y pleser i fynd allan ar leoliad rwyf wedi cael fy addysgu am yr holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud a pob un o'r ffactorau ac arwyddion sydd i gael os fydd plentyn yn cael profiad o gamdriniaeth tu hwnt i'r lleoliad addysg. Rwyf wedi cael fy addysgu hefyd hyd at y camau nesaf sydd angen ei ddilyn os fod yr hunllef barhaus yma'n wir i'r unigolyn. Deallaf yn llwyr fod bwnc camdriniaeth yn un drwm iawn er hyn, mae'r wybodaeth sydd tu hwnt o'r sefyllfa yn un bwysig iawn gan ein brif nod ni fel yr ymarferwyr ydy i ddiogelu bob plentyn ac i'w trin nhw yn gyfartal. Nad ydym yn gallu trin bob plentyn yr un peth gan fod anghenion bob unigolyn yn wahanol i'w gilydd, ond mae'n bwysig iawn o fewn y swydd nad ydym yn gwahaniaethu. Pwy fydd yn meddwl yn yr unfed ar hugain ganrif mae plant diniwed ifanc yn dal ei gael cam-drin? Gyda'r holl bolisïau, deddfwriaethau a gweithdrefnau cyfredol sydd wedi cael ei rhoi yn ei le, fel cenedl rydym yn meddwl mai rhywbeth o'r gorffennol ydy hyn. Gyda chalon drwm a thristwch i ddweud nad dim rhywbeth o'r gorffennol ydy hyn, gan ei fod yn dal i fod yn bresennol heddiw. Y rheswm pam dwi wedi dewis y dasg ffocws yma ydy oherwydd, dwi'n credu ei fod yn sylfaenol ac yn berthnasol heddiw ac mae'r wybodaeth ti fewn i'r man ffocws yma yn enfawr. Er hyn, credaf fod dal angen codi fwy o ymwybyddiaeth am y pwnc. Fyddai yn defnyddio ymchwil cynradd sef gwybodaeth dwi wedi chwilio allan a fy marn ar bethau dwi wedi

cael profiad ar fel rydw'i mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac yn gweithio yn y cyfnod sylfaen gyda phlant 4 a 5 mlwydd oed. Fyddai yn ychwanegu ffeithiau sydd yn feintiol sef y data ac ystadegau rwyf am gasglu a hefyd ffeithiau sydd yn ansoddol sef barn pobl eraill, beth mae gwahanol ddamcaniaethwyr wedi ei ymchwilio fewn i, profiadau gwahanol, golygfeydd eraill o fewn y proffesiwn a rhieni.

Tasg 2

Gofynnwn y cwestiwn, beth yw gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant *(CCPLD)*? Dyma beth sydd gan ymarferwyr swydd i gwblhau ei fod nhw yn hybu iechyd a lles plant, ond hefyd y bobl sydd o gwmpas yr unigolyn i gael nhw i deimlo hunan barch ac ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn. Mae polisïau, gweithdrefnau a damcaniaethau i gyd yn cael ei rhoi mewn i le i gadw pawb yn ddiogel. Nid yn unig y plant o fewn lleoliad addysg ond hefyd yr aelodau o'r staff sydd yn gweithio yna. Nid oes dim byd positif i gael o fewn yr adran o gamdriniaeth. Allwn edrych o fewn y materion positif fod yr ymarferwyr wedi codi ar y broblem gyda'r plentyn bach drwy weld arwyddion o gamdriniaeth, gall hyn fod yn bethau fel ddim yn gwisgo dillad addas i'r tywydd, cyrraedd yn hwyr bob dydd i'r lleoliad addysg, yn dweud ei fod nhw yn llwglyd neu hyd yn oed yn gallu gweld cleisiau a chytiau dros yr unigolyn . Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol gan gall hyn helpu'r unigolyn o bell ffordd gan gymryd y plentyn allan o'r sefyllfa hunllefus ac o wirionedd achub bywyd y plentyn. Mae adeiladu perthnasoedd positif rhwng yr ymarferwyr a'r plant o fewn y dosbarth yn holl bwysig. Dangosir hyn i blant bod ni fel yr ymarferwyr yn wirioneddol yn gofalu a phoeni trosant. Enghraifft o sut dwi yn dangos perthynas positif o fewn lleoliad addysg ydy i groesawi bob plentyn ar y ffordd mewn gan ddweud, "Bore da … (enw'r plentyn), sut wyt ti heddiw?" Neu, "Hwyl fawr … (enw'r plentyn)" wrth ffarwelio i fynd adref ar ddiwedd y dydd. Ymdeimlad o hunan werth a phwrpas i'r plentyn mae'r pwyntiau rwyf newydd drafod yn rhoi i'r unigolyn. Angenrheidiol yw cael perthynas positif rhwng yr ymarferwyr a'r plant, mae'n bwysig bod y plant yn gallu rhoi ffydd i mewn i ni fel yr ymarferwyr i allu trafod am ei phryderon neu ddigwyddiadau (Aperture Education, dim dyddiad). Gan edrych ar y pwyntiau negyddol gall yr unigolyn sydd yn cael ei gam-drin tu hwnt i'r lleoliad addysg bod yn ofn i siarad allan gan nad fydden nhw yn ymwybodol o'r canlyniad os fydd yr camdriniwr yn chwilio allan. O

ganlyniad i hyn, efallai fyddwn ni yn gweld newid mewn ymddygiad gyda'r plentyn e.e.. Cam bihafio, bod yn uchel, gweiddi allan neu ddefnyddio geiriau cas. Yn y dyfodol gall hyn i gyd cael yr unigolyn i ddioddef a phroblemau iechyd meddwl, chwilio hi yn anodd creu perthnasoedd, cam defnyddio cyffuriau ac alcohol neu i'r eithafol o gam-drin plentyn ei hun. Gelwir hyn yn brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs). Byddaf yn mynd mewn i fwy o fanylder gyda ACEs nes ymlaen o fewn yr ymchwiliad estynedig yma.

Mae hyn i gyd yn berthnasol gan mae digwyddiadau o gamdriniaeth yn dal i ddigwydd heddiw. Yn ôl y wefan NSPCC, plant oedd o dan yr oed o 18 yn y Deyrnas Unedig rhwng 2019 a 2020 fe oedd 68 wedi mawr gan laddiad. Yr ystadegau i hyn ydy 1 yng Nghymru, 2 yn Yr Alban, 4 yng Ngogledd Iwerddon a 61 yn Lloegr (NSPCC, 2021). Credaf fod yr ystadegau yma i gyd yn uchel iawn. Profai hyn nad yr ydym ni yn ymwybodol o'r hyn sydd yn digwydd tu ôl i ddrws clo. Y peth brawychus yw gall hyn ddigwydd yn unrhyw le, hyd yn oed yn Gymru wledig.

Yr effaith hir dymor gall gamdriniaeth gael ar unigolyn ydy *ACEs* fel rwyf barod wedi cyffwrdd ar uchod. Diffinir *ACEs* gan asiantaeth iechyd meddwl fel, "Digwyddiadau neu sefyllfaoedd dirdynnol iawn, a thrawmatig o bosibl, sy'n digwydd yn ystod plentyndod a/neu iencyndod. Gallant fod yn ddigwyddiadau unigol, neu fygythiadau hirfaith i, ac yn torri amodau, diogelwch, sicrwydd, ymddiriedaeth neu gyfanrwydd corfforol person ifanc". (Young Minds, 2018). Dywedodd astudiaeth nôl yn 2014 yn y Deyrnas Unedig fod 47% o bobl wedi profi i gael o leiaf un *ACE*, gyda 9% o'r boblogaeth wedi profi pedwar neu fwy o *ACEs* (Bellis et al, 2014). Rhai enghreifftiau o beth ydy ACEs ydy, unrhyw fath o gamdriniaeth, colli rhiant trwy ysgariad, marwolaeth neu adawiad, byw gyda rhywun sydd wedi mynd i'r carchar neu fyw gyda rhywun sydd yn cam-ddefnyddio cyffuriau ac alcohol (NHS Manchester University NHS Foundation Trust, dim dyddiad). Mae'r rhestr o beth ydy *ACEs* yn un lle allwn drafod y mater am gyfnod hir. Darganfuwyd (NHS Manchester University NHS Foundation Trust, dim dyddiad) bod 1 o bob 3 person sydd yn dioddef ag iechyd meddwl wedi cael profiad uniongyrchol o *ACEs*. Atgyfnerthon nhw hyn gan ddweud yr effeithiau eraill gall dod

yn gysylltiedig ag *ACEs* ydy i ddim gallu rheoli ymddygiad o fewn ysgolion, anawsterau ymdopi ag emosiynau'n ddiogel heb achosi niwed i chi'ch hun neu i eraill a ddim yn gallu gwneud neu gadw cyfeillgarwch iach a pherthnasoedd eraill. Credaf ar y cyfan fod hwn y mater trist, gan nid bob amser bai'r unigolyn ydy hyn, y bobl sydd o'i gwmpas ac yr amgylchedd maen nhw sydd gyda'r bai.

Ers i mi fod allan ar leoliad rwyf wedi bod yn lwcus iawn gan ar hyn o'r bryd, gan nad rwyf wedi cael profiad o ddelio gyda sefyllfa tu hwnt o galed sydd ym mater personol. Er hyn, rwyf yn ymwybodol iawn o'r polisiau, gweithdrefnau a deddfwriaeth sydd o'i le os fod sefyllfa yn codi. Rhai o'r polisïau sydd i'w gael yn le ydy Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn fis Ebrill 2016 fe ddaeth y ddeddfwriaeth yma i rym. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Yn lleol mha fyrddau diogelu plant rhanbarthol yn cydlynu ac yn sicrhau effeithiolrwydd gwaith i amddiffyn a hyrwyddo lles plant. Cyfrifoldeb sydd gyda nhw hefyd am bolisi, gweithdrefnau a chanllawiau amddiffyn plant lleol. Yng Nghymru, mae Deddf Plant 1989 yn amlinellu pryd i gychwyn achosion gofal a dyletswydd awdurdodau lleol i ddiogelu a hybu lles. Mae pob ysgol neu leoliad addysg gyda pholisïau a gweithdrefnau diogelu yn lle. Holl bwysig yw'r mater fod bob aelod o staff a rhieni yn deall y polisïau a gweithdrefnau sydd yn le. Fwyafrif o'r amser allwn ni chwilio'r rhain ar wefan y lleoliad. Os oes unrhyw bryderon gyda ni fel yr ymarferwyr fod plentyn yn dioddef a chamdriniaeth, fydd rhaid i ni basio'r neges ymlaen i berson sydd yn uwch law nag ni e.e. Y prifathro o fewn yr ysgol. O hyn fyddwn yn dilyn y polisi diogelu sef i gysylltu ag asiantaethau tu allan i'r ysgol megis NSPCC, fydd rhaid cysylltu â'r gwasanaethau amddiffyn plant lleol, dibynnu ar y sefyllfa ar adegau mi fydd angen cysylltu gyda'r heddlu hefyd. O hyn mi fydd yr holl wasanaethau yn asesu risg y sefyllfa ac yn cymryd camau i amddiffyn y plentyn fel y bo'n briodol naill ai trwy ymglymiad statudol neu gefnogaeth arall. Mae dyletswydd i gael i adrodd yr hyn y rydym yn pryderu neu yn ei weld. Dywedir o dan adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ei fod yn ofynnol i "bartneriaid perthnasol" awdurdod lleol hysbysu'r awdurdod lleol os oes ganddynt achos rhesymol i amau bod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin, profiad o esgeulustod neu unrhyw fath arall o achosion niwed. Cynnir hyn y bobl sydd yn gweithio i'r awdurdod lleol fel athrawon

ac ymarferwyr gwaith cymdeithasol, ymarferwyr iechyd, yr heddlu, gwasanaethau prawf ac eraill (NSPCC Learning, 2021).

Pwy yn eu cyflwr meddwl gywir fydd eisiau hyd yn oed meddwl am wneud unrhyw fath o niwed i blentyn ifanc? Y rhesymau tu ôl i hyn yn ôl (Healthline, 2018) ydy efallai fod hanes o gam-drin neu esgeulustod plant yn ystod eu plentyndod eu hunain (*ACEs)*, bod gan yr unigolyn anhwylder gan gam ddefnyddio sylweddau megis cyffuriau ac alcohol neu fod gan yr unigolyn cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol fel iselder, gôr bryder neu anhwylder straen wedi trawma *(PTSD)*. Mae hyn i gyd yn berthnasol heddiw gan fod llawer o blant yn dal i gael profiad o gamdriniaeth. Enwedig dros y ddwy flynedd diwethaf gyda covid-19 yn chwarae rôl enfawr yn fywydau pawb. Gan nad oedd neb yn siŵr beth oedd y canlyniadau hir dymor o gael covid fe oedd llawer o bobl yn ofn a phryderu mynd allan, bod yn or-ofalus gyda beth mha nhw'n ei gyffwrdd neu'n gweld. Fe oedd hyn i gyd wedi cael y genedl i boeni ac roedd nifer mawr o bobl yn dioddef o iechyd meddwl gan oedd neb yn gwybod atebion i gwestiynau am covid-19. Credaf fod covid-19 yn chwarae rhan enfawr o pam mae nifer o bobl heddiw yn fwy gwyliadwrus.

Yr effaith gall camdriniaeth cael ar unigolion ifanc ydy mi fydden nhw du ôl yn ei ddatblygiad holistaidd ac mi fydd hyn yn cael effaith ar yr unigolyn yn gorfforol, deallusol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol *(PILES)*. Tystiolaeth am hyn ydy am fachgen bach o'r enw Arthur Labinjo Hughes fe oedd e yn 6 mlwydd oed pryd bu farw e ar yr unfed ar bymtheg o Fehefin 2020. Pryd aeth y Deyrnas Unedig i mewn i'r cyfnod clo, fe oedd tad Arthur yn symud i mewn gyda'i gariad newydd. Roedd cariad newydd tad Arthur barod gyda phlant ei hun, felly heb feddwl oedd tad Arthur yn meddwl nid oedd problem gydag Arthur i symud i mewn hefyd. Er hyn roedd cariad tad Arthur wedi gwneud hi yn ddigon amlwg nad oedd hi eisiau Arthur yna. Roedd y cariad newydd yn cael Arthur i gysgu ar y llawr yn y lolfa yn lle mewn gwely, ac yn ystod y dydd i gael Arthur i sefyll yn gyntedd y tŷ am 14 awr y dydd. Os roedd Arthur yn trial i eistedd i lawr fe roedd hi yn rhoi cosb iddo. Amddifadedd o ddŵr a bwyd, nid ydy cariad newydd tad Arthur yn amlwg ddim yn gallu cyrraedd anghenion sylfaenol y plant. Enghraifft o

ddamcaniaeth Maslow ydy hyn. Er hyn, oes oedd Arthur yn cael bwyd fydd e wedi cael ei drochi mewn halen, oedd hyn yn gwneud y bwyd yn amhosib i blentyn 6 mlwydd oed cael fwyta. Yr effaith o ormod o halen yn y corff ydy mai'n farwolaeth araf gan fod yr organau yn dechrau methu ond hefyd yn sychu'r dŵr allan o'r corff. Lladdodd cariad newydd thad Arthur, Arthur ar y prynhawn o'r unfed ar bymtheg o Fehefin 2020. Dydy hi ddim wedi cyfaddef beth oedd hi wedi gwneud i'w ladd, yr effaith cafodd Arthur oedd anaf angheuol i'r ymennydd. Dywedodd arbenigwyr ei fod yn gyson a'r ffaith iddo a bod ei ben yn cael ei slamio dro ar ôl tro naill ai ar wal neu'r llawr (BBC News, 2021). Fy safbwynt i ydy o'r stori mae diogelu yn gyfrifoldeb pawb.

Wrth edrych ar safbwyntiau bobl eraill dywedodd Sheila Boxley, "Dychmygwch fod yn blentyn, yn gaeth ac yn ofnus, heb unrhyw gyfle i ymladd neu ffoi". Mae Sheila fynd ati gan ychwanegu, "Peidiwch â bod yn dawel os ydych yn amau cam-drin, a pheidiwch â bod yn ddistaw mewn trafodaeth gyhoeddus. Ni allwn ddadwneud y niwed, ond gallwn ailymrwymo i'n cenhadaeth i atal cam-drin plant" (The Sacramento Bee, 2014). Beth mae Sheila yn ddweud, mae'n wir gan nad ydyn ni yn gallu newid y niwed sydd wedi cael ei gwneud yn barod, er hyn allwn godi fwy o ymwybyddiaeth dros y mater i allu newid ein dyfodol i allu lleihau'r risg o blentyn neu berson ifanc yn fod at risg i gamdriniaeth.

Fel rwyf barod wedi trafod am y cyfnod clo yn y Deyrnas Unedig yn ôl ym mis Mawrth 2020. Roedd plant ddim gyda'r hawl i fynd i ysgol neu leoliad addysg, ac oedd popeth megis gwaith yn cael ei rhoi ar lein. Golyga hyn, gan nad oedd plant yn gweld pobl eraill, nid oedd neb yn ymwybodol o beth oedd digwydd tu ôl i'r llen. Fe oedd rhai teuluoedd yn methu mynd allan i brynu bwyd i'w plant, mae'r rhain yn anghenion sylfaenol mae plant ifanc ac mae rhai rhieni yn methu ei roi iddyn nhw. Plethaf ddamcaniaeth Maslow i mewn i hyn. Dywedodd Maslow er mwyn cynnig bod cymhelliant yn ganlyniad i ymgais person i fodloni'r pum angen sylfaenol. Ac os nad oeddech chi yn gallu cynnig yr anghenion sylfaenol i blant, nid oeddech chi yn gallu symud i fyny i'r adran nesaf (Y pump angen sylfaenol sydd angen ar blentyn yn ôl Maslow ydy anghenion seicolegol, anghenion diogelwch, anghenion

cariad a pherthyn, parch ac anghenion hunan-wireddu (Simply psychology, 2020) Fyddaf yn trafod fwy am ddamcaniaeth Maslow mewn dyfnder yn dasg 4.

Y ddamcaniaeth rwyf am drafod ydy *'The batteted-child syndrome'* gan H. Kempe, 1962. Diffinnir *'The batteted-child syndrome'* fel casgliad o anafiadau a gaiff plentyn o ganlyniad i gam-drin neu guro dro ar ôl tro. Os yw anafiadau plentyn yn arwydd o drawma bwriadol neu'n ymddangos yn fwy difrifol nag y gellid yn rhesymol ddisgwyl o ganlyniad i ddamwain, dylid amau *'The batteted-child syndrome'* (U.S Department of Justice, 2002). Mae erthygl gan y wefan *' National Library of Medicine'* yn olrhain ymddangosiad cam-drin plant fel pryder meddygol ym Mhrydain ac America ar ôl y rhyfel. Yn y 1960au cynnar diffiniodd paediatregydd a radiolegwyr Americanaidd y *'The batteted-child syndrome'* i nodweddu babanod sy'n destun cam-drin difrifol. Yn y cyd-destun Prydeinig, tynnodd paediatregydd a radiolegwyr ond hefyd dermatolegwyr ac offthalmolegwyr, ar y gwaith hwn a cheisio nodi arwyddion diagnostig clir o gam-drin plant. Am gyfnod, roedd yn ymddangos bod y pelydr-x yn darparu delweddiad dibynadwy a gwrthrychol o gamdriniaeth plentyn. Erbyn y 1970au dechreuodd gweithwyr meddygol proffesiynol wahodd gweithwyr cymdeithasol a llunwyr polisi i'w cynorthwyo i wneud diagnosis a rheoli cam-drin plant. Fe roedd drafodaeth am y *'The batteted-child syndrome'*, yn benodol, wrth i bryderon ynghylch cam-drin plant gynyddu. Roedd *'The batteted-child syndrome'* yn ffenomenon byr yn y 1960au, a gall ei archwilio llywio hanes awdurdod meddygol, radioleg, chyfrinachedd a phreifatrwydd yn y cyfnod ar ôl y rhyfel. Dywedodd H. Kempe *"The bones tell a story the child is too young or too frightened to tell"* (National Library of medicine, 2015). Mae diffiniad yma yn un sydd yn codi gwallt ar fy mreichiau, gan fod H. Kempe yn dweud gan yn amlwg mae'r plentyn yn ifanc ac yn ddiniwed i gael deall yn llwyr beth sydd yn digwydd. Efallai bod y plentyn yn rhy ifanc i ofyn cwestiynau fel pam? Er hyn mae beth sydd wedi digwydd i esgyrn y plant yn siarad am ei hun ac mae'r bobl sydd yn gweithio o fewn y proffesiwn meddygol yn gallu gweld hyn. Felly, hyd yn oed os fod y person sydd yn cam-drin y plentyn yn gwneud stori i fyny fel 'mae Tomi wedi cwympo allan o'r goeden' mi fydd y proffesiwn meddygol yn gwybod yn wir beth sydd wedi digwydd. Ac yn y pendraw mi fydd y ffeithiau a'r gwirionedd yn dod allan.

Wrth asesu os fod person yn agored i niwed, ni all fod unrhyw wahaniaethu ar sail y nodweddion hyn. Enw'r Ddeddf yma ydy, Deddf Cydraddoldeb 2010. O dan y Ddeddf yma, mae yna naw nodwedd sydd yn angenrheidiol hynny yw: oed, anabledd, newid rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd (Care Business Associate Training The Heart of Care Education, 2020). Mae Deddfau yn holl bwysig i ni ddilyn o fewn y lleoliad addysg, gan mae'n weithred mae pawb angen ei ddilyn yn cael ei rhoi i mewn i le am bwrpas pwysig iawn a hynny yw cadw bawb yn ddiogel. Yn enwedig gyda'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae hyn yn amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu. Mae'n hefyd yn dileu bwlio ac aflonyddu yn rheoleiddio sut mae polisïau a gweithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu yn y lleoliad (Social Care institute for excellence, 2020).

Tasg 3

Wrth weithio o fewn y sector addysg, mae'n hanfodol bod y staff i gyd yn gyd weithio fel un tîm. Mae staff i gyd yn defnyddio ei sgiliau proffesiynol neu unrhyw fathau o sgiliau eraill sydd ganddyn nhw i rannu ar draws y gweithle i greu amgylchedd positif a ddiogel lle mae'n briodol. Pwysigrwydd ydy gyfrannu cyfathrebu effeithiol, cynnal hawliau plant ac i roi'r rhyddid i bob unigolyn y gymryd rhan. Rhaid cofio fod bob unigolyn gydag anghenion gwahanol i'w gilydd felly mae angen osgoi gwahaniaethu ar bob cyfrif. Defnyddiwn y term cynhwysiant i gael y plant i gymryd rhan gan gofio i roi'r un cyfleoedd i bob unigolyn gan ddefnyddio amrywiaeth o bethau gwahanol fydd yn cael y plant i gymryd rhan (Deddf Cydraddoldeb, 2010). I atgyfnerthu'r hyn rwy'n sôn am ydy'r fframwaith *'United Nations Conventions on the Rights of the Child (UNCRC)'* dyma le mae 54 o erthyglau gwahanol sydd yn sôn am bob un o hawliau sydd gan blant. Mae erthygl 15 yn dweud wrthym fod bob plentyn gyda'r rhyddid i gymdeithasu megis cyfarfod â phlant eraill ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, cyn belled nad yw hyn yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Ar yr un ochr i'r geiniog mae erthygl 12 yn siarad am barch i'r golygfeydd o'r plentyn. Dywedir fod bob plentyn gyda'r hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnyn. Golyga hyn fod barn y plentyn yn cael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser nid oes mater am y sefyllfa (Unicef, dim dyddiad).

I wneud yn siŵr fod ddiogelwch bob plentyn o fewn y lleoliad addysg mewn dwylo diogel ar bob amser mae staff i gyd gorfod cael gwiriad *DBS*, hwn yw ffordd i gyflogwyr wirio cofnod troseddol, i helpu penderfynu os fod yr unigolyn yn berson addas i weithio iddynt (Mind, 2018). Mae mwyafrif o ysgolion yn adnewyddu eu gwiriadau *DBS* bob tair blynedd (Care check, dim dyddiad). Yn ogystal â gwiriadau'r staff, mae ESTYN yn dod i mewn i ysgolion ar leoliadau addysg ar draws Cymru bob 8 mlynedd i arolygu a hyfforddi. Nod ESTYN ydy i wella ansawdd addysg, hyfforddiant a chanlyniadau i holl ddysgwyr Cymru (ESTYN, 2021).

Fodd bynnag, sgil syml ond effeithiol iawn o fewn lleoliad addysg ydy i gyfathrebu. Gan gyfathrebu gyda staff eraill i wneud yn siŵr fod negeseuon yn cael ei drosglwyddo’n glir. Hyd yn oed wrth gael cyfathrebu clir a hyderus ac yn defnyddio geiriau perswâd ac ysbrydoledig, fydd hyn yn annog y plant i weithio mewn amgylchedd positif gan nad oes angen fod yn swil neu’n ofn i ofyn am gymorth. Ar y llaw arall, mae’n rhaid cofio beth sydd yn digwydd o fewn y lleoliad addysg mae popeth yn gyfrinachol. Os fydd y polisi cyfrinachedd yn cael ei dorri megis trafod am sefyllfa tu hwnt i’r lleoliad addysg a bod y lleoliad yn chwilio allan, fydd cosb i gael a risg o golli swydd (James. A, 2021).

Amrywiaeth ydy’r asiantaethau sydd o dan sylw o fewn lleoliad addysg. Rhai enghreifftiau ydy’r gweithwyr cymdeithasol. Os fod unrhyw fath o amau fod plentyn o fewn y lleoliad addysg yn cael rhyw fath o brofiad o gamdriniaeth mi fydd y gweithwyr cymdeithasol yn cael ei alw i helpu diogelu'r plentyn. Eu rôl yw gwella canlyniadau ym mywydau pobl, eu bod yn cynnal perthnasoedd proffesiynol ac yn eiriolwyr ar gyfer y rhai sydd ei angen. Maent yn derbyn ac yn gwerthuso tystiolaeth o gam-drin plant yn rheoliad. Fydden nhw yn cymryd camau ar unwaith i ddiogelu plant a’u cefnogi’n briodol (SW Locums, 2018). Os fydd unrhyw bryderon o gamdriniaeth i gael o fel lleoliad addysg y gwerthoedd ac egwyddorion diogelu sydd ar gael i’r ymarferwyr cael ddilyn ydy i adrodd am unrhyw bryderon yn uniongyrchol i’r swyddog diogelu. Mi fydd y swyddog diogelu yn sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i

amddiffyn y bobl maent yn gweithio gydag ac yn eu cefnogi. Yna mi fydd y swyddog yn mynd ati i gysylltu â'r awdurdod amddiffyn plant a'u sefydliadau, fydd hyn yn helpu i weithio gyda'r pant a'u teuluoedd i ddarparu'r cymorth cywir. Mae'n holl bwysig o fewn sefyllfa fel hyn mi fydd yr holl aelodau o staff ac ymarferwyr yn cadw polisïau yn gyfredol (Virtual College, 2021).

Tasg 4

O fewn y dasg hon fyddaf yn ystyried sut mae damcaniaeth Hierarchaeth anghenion Maslow *(Maslow's hierarchy of needs)*, deddfwriaeth Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg 2018/2021 a fframwaith *UNCRC* wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Gan drafod am ddamcaniaeth Maslow gynt ei ystyr fel dwi barod wedi dweud ydy wrth gynnig bod cymhelliant yn ganlyniad i ymgais person i fodloni'r pum angen sylfaenol Mae gan y ddamcaniaeth yma pum categori o anghenion dynol sy'n pennu ymddygiad unigolyn. Mae hyn i gyd yn cael ei arddangos mewn pyramid. Ar waelod y pyramid mae anghenion seicolegol dyma le mae gofynion biolegol ar gyfer goroesiad dynol e.e. Bwyd, diod, lloches, dillad a chynhesrwydd. Ystyriodd Maslow anghenion seicolegol y pwysicaf gan fod yr holl anghenion eraill yn dod yn eilradd nes bod yr anghenion hyn wedi'u bodloni. Yn ail mae, anghenion diogelwch, dyma le dywedodd Maslow fod yr angen am ddiogelwch yn dod yn amlwg, mae angen i bobl brofi trefn, rhag weladwyedd a rheolaeth yn eu bywydau, mae angen cyflawniad gan deulu a chymdeithas. Mae iechyd a lles yn enghraifft o hyn yw diogelwch rhag damweiniau ac anafiadau a rhyddid rhag ofn. Yn drydydd yn y pyramid mae anghenion cariad a pherthyn. Ar ôl i seicolegol a diogelwch gael eu cyflawni, mae'r drydedd lefel o anghenion yn gymdeithasol. Angen emosiynol dyn yw perthyn ac mae'n cyfeirio at fod yn rhan o rywbeth. Yn bedwerydd yn y pyramid mae parch, mae angen parch oddi wrth eraill ond hefyd urddas ac annibyniaeth. Ac yn olaf o fewn y pyramid mae anghenion hunan-wireddu. Dyma le mae gwireddu potensial a hunangyflawniad person ac awydd i gyflawni popeth (Simply psychology, 2020). Mae hyn i gyd yn berthnasol i ddiogelu drwy allu cyrraedd anghenion diogelwch bob unigolyn. Mae'n hanfodol ein bod ni fel yr ymarferwyr yn gallu rhoi awyrgylch bositif i blant ond hefyd i allu gwneud un rhywbeth er mwyn gwybod fod y plentyn yn ddiogel, yn amlwg gan wybod y ffiniau.

Mae’r ddeddfwriaeth cadw plant yn ddiogel mewn addysg 2018/2021 yn plethu i mewn gyda damcaniaeth Maslow. Ystyr y ddeddfwriaeth ydy i gadw plant yn ddiogel mewn addysg yn ddarn o ganllawiau statudol gan y llywodraeth sy’n nodi’r dyletswyddau cyfreithiol y mae’n rhaid i bob aelod o staff mewn addysg eu dilyn i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc o dan 18 oed mewn ysgolion a cholegau. Y newidiadau a wnaed i gadw plant yn ddiogel ydy polisïau ar blant sy’n colli ysgol. Dylid eu hystyried yn arwydd hanfodol o bryder diogelu posibl os fod yr unigolyn yn colli llawer o ysgol. Mi fydd angen 2 gyswllt brys fesul plentyn o fewn ysgolion, y rheswm pam mae angen cysylltiadau gyda theuluoedd adref ydy os fod rhywbeth yn digwydd yn yr ysgol i gael cysylltu ag adref i gael rhoi gwybod am y sefyllfa ac o bosib i’r plentyn fynd adref yn gynnar o’r ysgol. Hanfodol ydy eglurder bod gan ysgolion gyda pholisïau diogelu eu hunain mae hyn i gyd yn seiliedig ar faterion cymdeithasol y lleoliad. Fel rwyf wedi dweud o’r blaen mae polisïau a gweithdrefnau sydd yn cael ei ddilyn i gyd ar lein neu ar wefan y lleoliad addysg i’r cyhoedd cael weld. Er hyn, y rheswm fod newidiadau gael o fewn polisïau a gweithdrefnau ydy gan fod pryderon am covid-19. Ers mis Mawrth 2020 mae cyfarfodydd a gwaith bellach yn cael ei gynnal ar-lein.

Mae covid-19 wedi ymharru ar gyfnodau chwarae plant sydd o fewn y cyfnod sylfaen heddiw. Mae amrywiaeth eang o fathau chwarae i’w gael ac i blant cael profiadau a chwrdd â ffrindiau newydd i gael chwarae gyda nhw. Ond oherwydd o covid-19 mae plant dyddiau yma wedi bod yn dibynnu ar y tu fewn a dyfeisiau electronig a ddim yn cael llawer o ryngweithio gyda theulu agos a ffrindiau gan nad oedden nhw yn gallu cwrdd i fyny. Er hyn, mae hyn yn gallu fod yn fater positif gan fod y cwricwlwm i Gymru yn newid yn fis Medi 2022, ac mae hyn yn cynnwys gweithio gyda dyfeisiau electronig. Gan fod plant wedi colli gymaint o fewn y ddwy flynedd a hanner bron o ddechrau ei bywydau allwn gymharu i weld beth y maent wedi colli allan ar ac os oed unrhyw newidiadau o fewn ei ymddygiad i gymharu â blynyddoedd sydd wedi bod trwy’r cyfnod sylfaen cyn i covid-19 bwrw. Allwn ofyn y cwestiwn os oes unrhyw newidiau o fewn datblygiad y plant a elwir ar lein fel y ‘genhedlaeth goll’ gan ei fod nhw wedi colli allan ar gymaint ar ddechrau ei fywydau.

Mae’r fframwaith *UNCRC* yn “gytundeb rhyngwladol cyfreithiol-rwym sy’n nodi’r hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a ddiwylliannol pob plentyn, waeth beth fo’i hil, crefydd neu allu” (ico.Information Commissioner Office, dim dyddiad). Mae’n bwysig sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed o fewn lleoliad addysg gan ddyddiau heddiw nad ydym yn ymwybodol o beth mae plant yn mynd adref i. Mae dyletswydd ar ymarferwyr i wneud yn siŵr bod nhw yn cyrraedd anghenion bob unigolyn. Wrth wneud yn siŵr ein bod ni yn edrych ar ôl yr unigolion allwn wneud yn siŵr fod nhw dal i ddysgu a datblygu heb broblemau. Pan fod gwarchodwyr/rhieni yn dod a’i phlant i mewn i’r lleoliad addysg, am gyfnod byr o’r ddiwrnod mae’r plant yn ein gofal ni fel yr ymarferwyr mae’r gwarchodwyr/rhieni yn rhoi ffydd ynddo i ofalu ag i helpu ei blant. Wrth i ni ddangos ein bod ni yn ffyddol, gyfeillgar, yn groesawgar ac yn hapus mi fydd y plant yn dangos parch i ni. Yn yr un modd fydden ni yn dangos parch yn ôl i’r plant. Dyna enghraifft arall o sut mae damcaniaeth Maslow yn cael ei gynnal o fewn lleoliad addysg. Fydd hyn yn helpu adeiladu perthynas gadarnhaol a fydd y plant yn dysgu'r gwahaniaeth mewn person ffyddlon a pherson sydd ddim mor ffyddlon. Felly gall hyn fod yn sgil bywyd mi fydd y plant yn mynd ati i ddefnyddio yn y dyfodol wrth gwrdd â phobl newydd ac i bwy i drafod am faterion gyda. Diffiniad gan y wefan (ico.Information Commissioner Office, dim dyddiad) ydy *“Every child has the right to be respected, recognised and protected”.* I atgyfnerthu'r diffiniad yma mae erthygl 33 o’r *UNCRC* yn datgan y dylai’r llywodraeth gymryd camau i amddiffyn (ico.Information Commissioner Office, dim dyddiad) .

Tasg 5

Y dulliau sydd yn newydd a ddatblygiadol sydd yn berthnasol i Gymru heddiw ydy’r gwaharddiad smacio. Fe ddaeth y ddeddf yma i mewn i rym ar yr unfed ar hugain o Fawrth 2022. O fewn y ddeddf yma mae hyn yn nodi pwysigrwydd llais plant yn cael ei glywed a bod hawliau plant yn cael ei gynnal ond hefyd fod plant yn cael ei hamddiffyn *(UNCRC)*. Yn fanylder, os fyddwn berson yn weld rhiant/gwarchodwr yn rhoi cosb gorfforol i blentyn megis smacio, taro, slapio neu ysgwyd mae hyn i gyd yn

anghyfreithlon yng Nghymru, mae hyn hefyd yn berthnasol i ymwelwyr yng Nghymru. Os fyddwn ni yn gweld unigolyn yn gwneud hyn i blentyn mi fydd angen cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Mae hyn i gyd yn rhoi'r un amddiffyniad i blant ag ymosodiad gydag oedolyn (The Guardian, 2022). Mae Deddf Plant Cymru yn caniatáu i blant aros yn ddiogel, yn caniatáu i blant fod yn iach, yn sicrhau bod plant yn hapus ac yn sicrhau bod plant yn aros yn ddiogel yn eu hamgylchedd (Senedd Cymru, 2019). Mae hyn i gyd yn diogelu'r plant drwy ei fod yn gallu helpu i leihau *ACEs* o hyn fydd plant yn byw ac yn cael ei magu mewn amgylchedd iach a ddiogel. Mi fydd fwy o bosibilrwydd fydd anghenion y plant yn cael ei diwallu ac yn hyrwyddo byw'n iach (*UNCRC)*. Mae atgyfnerthu cadarnhaol yn ymwneud â damcaniaeth Skinner o gyflyru gweithredol.

Mae'r arfer newydd yma yn gallu cael ei effeithio ar leoliadau addysg gan ddefnyddio damcaniaeth Skinner o gyflyru gweithredol "mae ymateb neu ymddygiad yn cael ei gryfhau gan wobrau, gan arwain at ailadrodd yr ymddygiad dymunol" B. F. Skinner (Very Well Mind, 2020). Mae'n credu bod cosb yn gwahanu ymddygiad. Mae cyflyru gweithredol yn annog atgyfnerthu cadarnhaol. Enghraifft o hyn o fewn lleoliad ydy os fydd y plant yn eistedd ar y carpet yn daclus ac yn dawel mi fydden nhw yn cael sticer ar ddiwedd y dydd, gelwir hyn yn atgyfnerthu cadarnhaol.

Nod y Cwricwlwm newydd i Gymru ydy fydd bob plentyn a pherson ifanc yn dod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu drwy eu bywydau. Mi fydd unigolion yn iach ac yn hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus. Maent eisiau i bob unigolyn bod yn greadigol a bod yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. A'r pwynt olaf mae'r cwricwlwm newydd eisiau i'r dyfodol ddatblygu ydy i fod dinasyddion yn foesegol a'i fod yn wybodus. Golyga hyn fod pobl yn galluogi i fyw bywydau boddhaus a phroffesiynol a bod meysydd dysgu a phrofiad gan unigolion. Bydd hyn i gyd yn hyrwyddo diogelu gan fydd datblygiad a gwybodaeth am berthnasoedd iach gan unigolion. Fydd plant yn cael ei addysgu ar sut i gadw'n ddiogel gan gynnwys ar-lein. Ac yn olaf i annog plant i godi materion neu bryderon a allai fod ganddynt gydag oedolion cyfrifol o fewn lleoliad addysg (Bera, 2020).

Mae’n bwysig fod ymarferwyr yn ymwybodol o rôl ei swydd bersonol o fewn yr ystafell ddosbarth a’m gofynion cyfreithiol. Dull sydd yn gallu helpu hyn rhwng yr ymarferwyr a’r plant ydy yn gyntaf fod pawb yn deall ei ffiniau, ond yn ail i ddefnyddio dull plentyn-ganolog. Hyn yw lle rydym ni fel yr ymarferwyr yn canolbwyntio ar y plentyn yn sylfaenol i ddiogelu a hyrwyddo lles bob unigolyn. Mae’n golygu cadw’r plentyn mewn ffocws wrth wneud penderfyniadau am eu bywydau a gweithio mewn partneriaeth â nhw a’u teuluoedd. Enghreifftiau a rhesymau pam mae’r dull hon yn hanfodol ydy i wneud yn siŵr fod anghenion unigol bob plentyn yn cael ei gyrraedd i helpu'r plentyn cael cyrraedd ei llawn botensial. Fyddwn hefyd yn defnyddio'r dull hwn gan wneud yn siŵr fod y plant i gyd yn deall a gwrando. Os nad fydd un neu ddau blentyn ddim yn deall bydd rhaid i ni esbonio eto i’r plant hynny gan ddefnyddio fwy o fanylder wrth esbonio ac efallai defnyddio un neu ddwy enghraifft i’w helpu ddechrau bant. Mae’n rhoi cyfle i’r plant felly gallant fynegi hunan ddisgyblaeth, gyda’u barn, eu meddyliau a’u chredydau. Gallwn helpu hybu ei lles gyda’r wybodaeth maent yn ei rhannu. Mae’n hanfodol o bwysig fod llais bob plentyn yn cael ei glywed ond yn fwyaf pwysig i wneud yn siŵr fod yr ymarferwyr yn gwrando ar beth sydd ganddynt i ddweud. Parch, mae’r gair yma yn mynd pell ford gan ei fod yn chwarae rôl bwysig o dan y mater yma gan fod parch yn broses ddwy ffordd. Os rydym ni fel yr ymarferwyr yn dangos parch tuag at y plant a phobl ifanc mi fydden nhw yn dangos parch yn ôl tuag atom ni hefyd. Mae llawer o bobl dyddiau yma yn disgwyl parch heb sylwi ei bod hi’n broses ddwy ffordd. Anghytunaf yn llwyr ar adegau lle mae pobl henaint yn disgwyl parch gan bobl ifanc, os nad fydd bobl henaint yn dangos parch i bobl ifanc, nid yw’r broses yn un ffordd, mae’r broses yn un ddwy ffordd

Gallwn sicrhau fod diogelu yn llwyddiannus mewn lleoliadau addysgol drwy sicrhau cyfrinachedd mae’r rheoliad diogelu data cyffredinol dyma enghraifft o GDPR. Hwn yw lle mae data o fewn sefydliadau yn sicrhau bod data personol yn cael ei gasglu’n gyfreithiol ac o dan amodau llym, ond mae’n ofynnol i’r rhai sydd yn ei gasglu a’i reoli ei ddiogelu rhag cael ei gamddefnyddio a’i ecsbloetio, yn ogystal â pharchu hawliau data. Os fydd y data hwn yn cael ei rannu bydd y polisi o gyfrinachedd yn cael ei dorri ac mi fydd cosb yn cael ei wynebu.

Tasg 6

Teimlaf er bod ni dal yn byw yn yr ugeinfed ganrif, mae llawer o wasanaethau ac asiantaethau dal yn codi ar gamdriniaeth yn rhy hwyr. Enghreifftiau o le mha wasanaethau ac asiantaethau wedi gadael plentyn i lawr ydy stori Victoria Climbié. Bu farw Victoria yn uned gofal dwys Ysbyty'r Santes Fair Paddington ar y pumed ar hugain o Chwefror 2000, yn 8 oed a 3 mis. Achoswyd ei marwolaeth gan anafiadau lluosog yn delio gyda chamdriniaeth am fisoedd gan ei fodryb, Marie-Therese Kouao a'i phartner ei hen fodryb, Carl John Manning (The House of Commons Health Committee, 2002-03). Bu marwolaeth Victoria yn bennaf gyfrifol am ffurfio menter *Every Child Matters*; cyflwyno Deddf Plant 2004 (Child Protection resource, 2015). Mae'n amser i'r holl wasanaethau ac asiantaethau cael hyfforddiant i atgyfnerthu neu efallai newid y ffordd maent yn cyfathrebu gyda'i gilydd neu i godi ar ffactorau ac arwyddion newydd sydd ar gael pan fydd plentyn yn dod i mewn i le meddygfa megis *GP* neu ysbyty gydag anafiadau arswydus dros ei chorff bach. Pwynt arall ydy gallwn ddod a deddfwriaeth newydd i mewn pan fydd plentyn yn mynd mewn i'r ysbyty gydag anafiadau arswydus dros ei chorff, i alw'r heddlu a gweithwyr cymdeithasol i mewn yn syth i gael cwestiynu'r gwarchodwyr/rhieni. Gan gredaf ar ôl edrych yn ôl ar achosion gwahanol le mae plentyn yn anffodus wedi colli ei fywyd, mae'r gwasanaethau ac asiantaethau yn cymryd rhy hir i weithredu ar y mater.

O fewn lleoliadau addysg credaf mi ddylai bawb sydd yn rhan o'r tîm megis yr athrawon, ymarferwyr i'r cogyddion cael hyfforddiant yn aml ar ddiogelu a sut i godi ar gamdriniaeth o fewn lleoliadau addysg. Y rheswm dwi'n dweud cogyddion ydy oherwydd yn ôl fy mhrofiad i o fod allan ar leoliad y cogyddion sydd yn ofal y plant amser cinio. Felly efallai mi fydden nhw yn gallu codi ar bethau megis plant ddim yn cael y maeth cywir yn ei bocs bwyd os fod nhw yn mynd a thocyn ei hun. Neu hyd yn oed i blant chwarae gyda'i fwyd gan nad ydyn nhw eisiau ei bwyta gan efallai fod rhywbeth yn pryderu arnyn nhw.

Er hyn fyddai bob amser yn gwneud yn siŵr os oes unrhyw bryderon gyda mi am unrhyw unigolyn sydd yn y lleoliad, i ddod a'r mater i fyny gyda rhywun sydd yn uwchlaw i mi fydd yn gallu delio gyda'r mater ymhellach. Fydd angen bob amser cadw cyfrinachedd a phwysigrwydd diogel y plentyn yn feddwl. Gan wneud yn siwr fyddaf yn dilyn polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaethau yn fanwl.

Llyfryddiaeth:

Aperture Education (dim dyddiad) 6 ways to build strong teacher-student relationships with SEL *ar gael ar* https://apertureed.com/5-strategies-building-relationships-students/ *(dyddiad cyrchu 01/04/22)*

Arolygiaeth Gofal Cymru (dim dyddiad) Beth ydym ni'n ei wneud, ar gael ar https://arolygiaethgofal.cymru/amdanom-ni/beth-ydym-nin-ei-wneud?_ga=2.223529176.2107857336.1648999571-311748344.1648999571 *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

BBC News (2021) Arthur Labinjo-Hughes: What do we know about his life and death? *Ar gael ar https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-birmingham-59549439 (dyddiad cyrchu 01/04/22)*

Bera (2020) Can the New Welsh Curriculum achieve its purposes?*ar gael ar https://bera-journals.onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1002/curj.26#:~:text=In%20the%20New%20Welsh%20Curriculum,(3)%20%27enterprising%2C%20creative (dyddiad cyrchu 31/03/22)*

Care Business Associate Training The Heart of Care Education (2020) What legislation governs safeguarding? *Ar gael ar https://cbassociatetraining.co.uk/what-legislation-governs-safeguarding/ (dyddiad cyrchu 01/04/22)*

Care check (dim dyddiad) DBS checks for schools *ar gael ar* https://www.carecheck.co.uk/industries/dbs-checks-for-schools/ *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

Child Protection Company (2018) 6 Steps to Successful Safeguarding in Schools *ar gael ar* https://www.childprotectioncompany.com/CPC/news/general/6-steps-to-successful-safeguarding-in-schools/ *(dyddiad cyrchu 31/03/22)*

Child protection resource (2015) A system in continual crisis – what happens when all you do is try to shift the blame? *Ar gael ar https://childprotectionresource.online/tag/victoria-climbie/ (dyddiad cyrchu 01/04/22)*

Children England charities working for children and families (2016) The Human Rights Act: what does it mean for children? *Ar gael ar* https://www.childrenengland.org.uk/blog/the-human-rights-act-what-does-it-mean-for-children#:~:text=Children%20and%20the%20Human%20Rights *(dyddiad cyrchu 29/03/22)*

Community Care The Heart of your social care career (2017) Ten years on from Baby P: social work's story *ar gael ar* https://www.communitycare.co.uk/2017/08/03/ten-years-baby-p-social-works-story/ *(dyddiad cyrchu 01/04/22)*

Digitalis (dim dyddiad) Defining Medical Staff Responsibilities [2021 Guide] *ar gael ar* https://digitalismedical.com/blog/medical-staff-responsibilities/ *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

ESTYN (2021) About us *ar gael ar* https://www.estyn.gov.wales/about-us *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

Healthline (2018) Understanding the Causes of Child Abuse *ar gael ar* https://www.healthline.com/health/causes-of-child-abuse *(dyddiad cyrchu 01/04/22)*

ico. Information Commissioner Office (dim dyddiad) *ar gael ar https://ico.org.uk/for-organisations/childrens-code-hub/how-to-use-our-guidance-for-standard-one-best-interests-of-the-child/the-united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child/ (dyddiad cyrchu 29/03/22)*

iHasco (2020) What is the Children Act 2004? *Ar gael ar* https://www.ihasco.co.uk/blog/entry/2508/what-is-the-childrens-act-2004 *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

Inquiry Report *ar gael ar* https://publications.parliament.uk/pa/cm200203/cmselect/cmhealth/570/570.pdf *(dyddiad cyrchu 01/04/22)*

Interaction Design Foundation (2021) Safety: Maslow's Hierarchy of Needs *ar gael ar* https://www.interaction-design.org/literature/article/safety-maslow-s-hierarchy-of-needs *(dyddiad cyrchu 29/03/22)*

ISCP (dim dyddiad) Police *ar gael ar* http://iscp.gg/article/118083/Police *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

Jobs.ac.uk (dim dyddiad) What is Continuing Professional Development (CPD)? *Ar gael ar* https://career-advice.jobs.ac.uk/career-development/what-is-continuing-professional-development-cpd/ *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

Llywodraeth Cymru, Stats Wales (2020-21) Children on the child protection register at 31 March per 10,000 population aged under 18 by local authority and year *ar gael ar* https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/social-services-performance-and-improvement-framework/children-and-families/childrenlookedafterat31marchper10000populationagedunder18-by-localauthority-year *(dyddiad cyrchu 01/04/22)*

Mind (2018) DBS checks and your mental health *ar gael ar* https://www.mind.org.uk/information-support/legal-rights/dbs-checks-and-your-mental-health/about-dbs-checks/ *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

National Library of medicine (2015) 'The bones tell a story the child is too young or too frightened to tell': The Battered Child Syndrome in Post-war Britain and America *ar gael ar* https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/26516299/ *(dyddiad cyrchu 01/04/22)*

NHS (dim dyddiad) Health visitor *ar gael ar* https://www.healthcareers.nhs.uk/explore-roles/public-health/roles-public-health/health-visitor/health-visitor *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

NHS Manchester University NHS Foundation Trust (dim dyddiad) Adverse Childhood Experiences and Attachment *ar gael ar* https://mft.nhs.uk/rmch/services/camhs/young-people/adverse-childhood-experiences-aces-and-attachment/ *(dyddiad cyrchu 01/04/22)*

NSPCC (2021) Statistics briefing: child deaths due to abuse or neglect *ar gael ar* https://learning.nspcc.org.uk/media/1652/statistics-briefing-child-deaths-abuse-neglect.pdf *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

NSPCC (dim dyddiad) The NSPCC Schools Service. How we can help you to keep children safe *ar gael ar* https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/schools/schools-services-brochure.pdf *(dydiad cyrchu 28/03/22).*

NSPCC Learning (2021) Child Protection System in Wales *ar gael ar* https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/wales#heading-top *(dyddiad cyrchu 01/04/22)*

Ofsted raising standards improving lives (2011) Good practice by Local Safeguarding Children Boards *ar gael ar* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/419150/Good_practice_by_Local_Safeguarding_Children_Boards.pdf *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

Senedd Cymru (2019) Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Act 2020 *ar gael ar* https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=24674 *(dyddiad cyrchu 31/03/22)*

Simply Psychology (2020) Maslow's Hierarchy of Needs *ar gael ar* https://www.simplypsychology.org/maslow.html *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

Social care institute for excellence (2020) Equality act 2010 *ar gael ar* https://www.scie.org.uk/key-social-care-legislation/equality-act *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

SW Locums (2018) What is the Role of a Child Protection Social Worker? *Ar gael ar* https://swlocums.com/what-is-the-role-of-a-child-protection-social-worker/ *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

teAchnology (Dim dyddiad) How To Use Operant conditioning in your classroom *ar gael ar* https://www.teachnology.com/tutorials/teaching/operantcond.html#:~:text=Used%20in%20a%20variety%20of%20situations%2C%20operant%20conditioning,is%20through%20praise%2C%20as%20the%20following%20example%20illustrates *(dyddiad cyrchu 31/03/22)*

The Guardian (2022) Wales introduces ban on smacking and slapping children *ar gael ar* https://www.theguardian.com/uk-news/2022/mar/21/wales-introduces-ban-on-smacking-and-slapping-children *(dyddiad cyrchu 31/03/22)*

The House of Commons Health Committee (2002-03) The Victoria Climbié

The Sacramento Bee (2014) Viewpoints: Child abuse should never be acceptable *ar gael ar* https://www.sacbee.com/opinion/op-ed/article2610405.html *(dyddiad cyrchu 01/04/22).*

U.S Department of Justice (2002) Portable Guides to Investigating Child Abuse *ar gael ar* https://www.ojp.gov/pdffiles1/ojjdp/161406.pdf *(dyddiad cyrchu 01/04/22)*

Unicef (dim dyddiad) a summary of the un convention on the rights of the child *ar gael ar* https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf *(dyddiad cyrchu 29/03/22)*

Very Well Mind (2020) B. F. Skinner Biography One Leader of Behaviorism *ar gael ar* https://www.verywellmind.com/b-f-skinner-biography-1904-1990-2795543 *(dyddiad cyrchu 31/03/22)*

Virual College (2021) How to Become a Safeguarding Officer *ar gael ar* *https://www.virtual-college.co.uk/resources/how-to-become-a-safeguarding-*

officer#:~:text=A%20safeguarding%20officer%20ensures%20that,that%20their%20regulations%20apply%20to *(dyddiad cyrchu 28/03/22)*

Mae hyn yn cynnwys dyfyniadau uniongyrchol.